**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**
**SWYDD-DDISGRIFIAD**

| | |
|---|---|
| **Adran** | Gwasanaethau, Perfformiad a Chyfathrebiadau |
| **Swydd** | Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Risg |
| **Rhif Swydd** | NU190 |
| **Graddfa** | 11 |
| **Lleoliad** | Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Llantrisant |
| **Yn gyfrifol i'r** | Rheolwr Cynllunio, Perfformiad a Risg |
| **Yn gyfrifol am** | Ddim yn berthnasol |
| **Cyfrifoldeb dros Adnoddau Corfforol** | Ddim yn berthnasol |
| **Cyfrifoldeb dros Adnoddau Ariannol** | Ddim yn berthnasol |

Cyfeiria'r swydd-ddisgrifiad hwn at brif bwrpas a chyfrifoldebau'r swydd. Nid yw hyn o reidrwydd yn nodi mewn manylder yr holl dasgau sydd eu hangen i gyflawni'r cyfrifoldebau hyn. Adolygir y swydd-ddisgrifiad hwn fel bo'r gofyn i sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes y Gwasanaeth

| **PRIF BWRPAS Y SWYDD** |
|---|
| Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am gynllunio, gweithredu, cynnal a gwella'n barhaus brosesau sefydliadol a'r holl strategaethau cysylltiedig sy'n ymwneud â Chynllunio Busnes, Rheoli Perfformiad, Risg ac Archwilio.<br><br>Bydd deilydd y swydd yn gyfrifol am ddarparu cyngor a chyfarwyddyd i uwch reolwyr a holl aelodau staff, i sicrhau bod y sefydliad yn rheoli ac adrodd am ei berfformiad yn unol â'r holl ofynion deddfwriaethol perthnasol. |

## DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1. I gynllunio, gweithredu, cynnal a gwella'n barhaus:

    a. Fframwaith cynllunio busnes y Gwasanaeth i sicrhau bod yr holl amcanion gwella a chamau ategol yn cael eu datblygu, mesur ac adrodd yn effeithiol er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol.

    b. Systemau rheoli perfformiad y Gwasanaeth i sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu mesur ei berfformiad mewn perthynas â'r holl amcanion gwella, mentrau parhaus a dangosyddion perfformiad allweddol.

c. Fframwaith rheoli risg y Gwasanaeth i sicrhau y cymerir ymagwedd safonedig ar gyfer nodi a mesur effaith risgiau a'u rheoli parhaus.

ch. Rheolaeth y Gwasanaeth o gamau a nodir wrth archwilio, gan sicrhau bod yr holl gamau archwilio newydd yn cael eu cipio a bod cynnydd parhaus yn erbyn y camau hyn yn cael ei fonitro a'u hadrodd yn effeithiol.

2. I ddarparu cyfarwyddyd a chyngor i uwch reolwyr a chyfarwyddiaethau ar draws y Gwasanaeth am ddatblygu cynllun busnes blynyddol y sefydliad, gan sicrhau y cofnodir cynnydd yn erbyn yr holl dasgau yn unol â'r fframwaith cynllunio busnes.

3. I ddarparu cyfarwyddyd a chyngor i uwch reolwyr a chyfarwyddiaethau ar draws y Gwasanaeth am ddatblygu cofrestrau risg y sefydliad , gan sicrhau y cofnodir cynnydd yn erbyn yr holl dasgau rheoli yn unol â'r fframwaith rheoli risg.

4. I gynllunio, cynnall a datblygu system gwybodaeth rheoli busnes y sefydliad a darparu hyfforddiant, cyngor a chymorth i ddefnyddwyr yn ôl yr angen.

5. I fonitro, cyd-lynu a chynnal fframweithiau a chofrestrau rheoli prosiectau'r Gwasanaeth a thrwy hyn ddarparu cyngor a chyfarwyddyd i reolwyr.

6. I gefnogi'r Gwasanaeth ynglyn â phrosiectau trawsnewid busnes a hyrwyddo mentrau gwelliant parhaus. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag uwch reolwyr, adrannau eraill, a phartneriaid allanol eraill fel eiriolwr gwelliant parhaus.

7. I weithio'n gydweithredol â Gwasanaethau Tân ac Achub a sefydliadau eraill i nodi meysydd o arfer da er mwyn gwella cyflwyniad gwasanaethau rheoli perfformiad effeithiol.

8. I eirioli, hyrwyddo, hyfforddi a datblygu timau ar draws y Gwasanaeth i ddatblygu eu dealltwriaeth a gwybodaeth o gynllunio busnes, rheoli perfformiad ac arfau a thechnegau gwelliant parhaus,.

9. I gynrychioli'r Gwasanaeth fel pwynt cyswllt allweddol ar gyfer digwyddiadau, grwpiau a fforymau yn ymwneud â chynllunio busnes, rheoli perfformiad a risg.

10. I ymchwilio nodi a gweithredu arfer da a gwelliant parhaus mewn perthynas â Chynllunio Busnes, Rheoli Perfformiad, Risg ac Archwilio.

11. I weithio'n agos â'r tîm Ystadegau a Risg, i sicrhau bod data a gwybodaeth risg yn hysbysu gweithgareddau gwneud penderfyniadau a lleihau risg

12. I ddatblygu a chynnal tudalennau gwe Ymgysylltu, Perfformiad a Risg gyda gwybodaeth berthnasol a chyfredol sy'n cefnogi a hyrwyddo diwylliant o welliant parhaus.

13. I ddarparu cymorth â chynhaliaeth a hydwythedd y Tîm Perfformiad a Chyfathrebiadau a'r Gwasanaeth ehangach.

**GOFYNION GWASANAETH SAFONOL**
I fynychu cyrsiau hyfforddi mewnol ac allanol yn ôl yr angen

- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesurol â'r raddfa a'r swydd.

- I gydweithredu'n llawn ag unrhyw gynllun neu gynllun peilot a gyflwynir o fewn yr Adran neu ar draws y Gwasanaeth.

- I weithredu egwyddorion Polisïau Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth a Chynllun Iaith Gymraeg y Gwasanaeth wrth gyflawni'r dyletswyddau uchod.

- I ufuddhau i Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch/Polisïau a Gweithdrefnau Gwasanaeth Perthnasol a chymryd gofal rhesymol am eich iechyd a diogelwch eich hun yn ogystal â rhai personau eraill a all gael eu heffeithio'n andwyol gan eich gweithredoedd/anweithredoedd.

**GWERTHOEDD SEFYDLIADOL**
Wrth berfformio'r rôl uchod, mae'n ofynnol i bob gweithiwr y Gwasanaeth ddilyn a hyrwyddo Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth ar bob adeg, megis bod:

- Yn broffesiynol
- Yn ofalgar
- Yn barchus
- Yn ymroddgar
- Yn ddibynadwy
- Yn rymus
- Yn ddisgybledig
- Yn hydwyth